

2020 (LIC20-36)

DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

Cyfnod penodedig

1. Yn yr hysbysiad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 26 Mehefin 2020.

Datgymhwyso gofynion newid amserau sesiynau ysgolion

2. Mae rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009(2) (“Rheoliadau 2009”) wedi eu datgymhwyso am y cyfnod penodedig.

Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y mae ysgolion wedi parhau i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws. Mae ysgolion bellach yn cynllunio i gynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin 2020 er mwyn galluogi dysgwyr i ailgydio, dal i fyny a pharatoi at yr haf a dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf.

(1) 2020 p. 7.

(2) O.S. 2009/572 (Cy. 54).

(3) Mae amserau sesiynau ysgolion ar gyfer ysgolion a gynhelir yn cael eu penderfynu fel arfer gan y corff llywodraethu a chaniateir iddynt gael eu penderfynu o dan rai amgylchiadau gan awdurdod lleol o dan adran 32C o Ddeddf Addysg 2002⁽¹⁾. Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2009 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan awdurdod lleol ac mae rheoliad 4 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

(4) O ganlyniad i'r angen i gymryd mesurau rheoli clefyd, gan gynnwys cyfyngiadau ar nifer y disgyblion a gaiff fynychu'r ysgol ar unrhyw un adeg, gall fod angen newid amserau sesiynau ysgolion pan fydd gweithrediadau ysgolion yn cynyddu ar 29 Mehefin. Ni fydd yn bosibl i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2009 yn yr amser sydd ar gael cyn 29 Mehefin a gall addasiadau pellach i amserau sesiynau ysgolion fod yn ddymunol yn ddiweddarach yng ngoleuni'r profiad o weithredu ysgolion o dan yr amgylchiadau presennol.

Llofnodwyd gan Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

12:22 p.m. ar 25 Mehefin 2020

(1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32C gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).